

Ymateb y Llywodraeth: Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Pecyn o fesurau carlam i ddiwygio'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol: Crynodeb Cymru

1. Dyma ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol, a amlinellwyd yn yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol: Pecyn o fesurau carlam. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 28 Chwefror 2020 a daeth i ben ar 17 Mehefin 2020. Cafodd y llywodraeth 498 o ymatebion ar-lein a chynhaliodd 7 trafodaeth bord gron wyneb yn wyneb gydag ymarferwyr ar hyd a lled Cymru a Lloegr.
2. Ein bwriad yn wreiddiol oedd dod â'r ymgynghoriad hwn i ben ar 27 Mawrth 2020. Mewn trafodaeth â'r cyrff cynrychioliadol allweddol ar gyfer y proffesiynau, gwnaethom atal yr ymgynghoriad er mwyn canolbwyntio ar argyfwng Covid-19, i ddatblygu mesurau i gefnogi llif arian i gwmnïau ac unigolion tra bod llif gwaith drwy'r system yn cael ei amharu. Wrth i'r llysoedd ddechrau cymryd camau tuag at adferiad, gwnaethom gytuno mewn ymgynghoriad â'r cyrff cynrychioliadol mai cam hanfodol tuag at gefnogi cynaliadwyedd y farchnad oedd troi ein sylw'n ôl at yr adolygiad. Felly, rydym yn ceisio rhoi'r cynigion ar waith cyn gynted â phosibl ac felly cael arian ychwanegol ar gyfer y gwaith a wnaed i mewn i'r system, tra byddwn yn parhau â cham nesaf yr adolygiad.
3. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd adolygiad cynhwysfawr o'r system cymorth cyfreithiol troseddol gan gynnwys pob cynllun ffioedd a'r farchnad ehangach.¹ Ar y cyd â chyrff cynrychioliadol proffesiynol, gan gynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar, Pwyllgor y Bargyfreithwyr Ifanc a Chymdeithas y Bar Troseddol, cytunwyd i gyflwyno ystyriaethau'r meysydd a ganlyn²:

1 I gael rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol, ewch i'r wefan:
<https://www.gov.uk/guidance/criminal-legal-aid-review>

2 Cyfeirir at y meysydd hyn gyda'i gilydd fel y "meysydd carlam" yn y ddogfen hon, ac yn y Datganiad Cydraddoldeb Asesiad Effaith sy'n cyd-fynd â hi.

- sut mae ymglyfreithwyr ac adfocadau yn cael eu talu am waith ar ddeunyddiau heb eu defnyddio³
 - sut mae adfocadau'n cael eu talu am eu gwaith ar achosion sydd â llawer o waith papur
 - sut mae adfocadau'n cael eu talu am dreialon chwâl yn Llys y Goron
 - sut mae ymglyfreithwyr yn cael eu talu am y gwaith o anfon achosion i Lys y Goron
 - sut mae ymglyfreithwyr yn cael eu talu am ymgysylltu cyn cyhuddo
4. Ar ôl ystyried ymatebion yr ymglyngoreion yn ofalus, rydym am fwrw ymlaen â'r cynigion ar y meysydd carlam a nodwyd yn yr ymglyngoriad, ac eithrio sut mae ymglyfreithwyr yn cael eu talu am y gwaith o anfon achosion i Lys y Goron. Ar gyfer y cynnig hwn, rydym yn codi'r taliad o 2 awr o waith i 4 awr a bydd y taliad yn cael ei wneud o dan gynllun y llys ynadon yn hytrach na'r LGFS.
 5. Gyda'i gilydd, mae'r cynigion hyn yn cynrychioli £36 miliwn i £51 miliwn ychwanegol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol bob blwyddyn. Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr amcangyfrif o'r gost hon yn yr Asesiad o Effaith sydd ynghlwm.
 6. Byddwn yn ffurfioli ac yn ymglyngori ar gynnig am dâl am ymgysylltu cyn cyhuddo yn dilyn cyhoeddi canllawiau datgelu newydd gan y Twrnai Cyffredinol, a oedd yn destun ymglyngoriad cyhoeddus yn ddiweddar.⁴ Rydym yn bwriadu lansio'r ymglyngoriad hwn ym mis Awst neu fis Medi 2020. Rydym yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad gan ymarferwyr amddiffyn drwy gydol cyfnod yr ymglyngoriad ac yn ystod yr adolygiad. Mae nifer fawr o ymatebion i'r ymglyngoriad wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y proffesiwn amddiffyn troseddol, mater sydd bob amser wedi bod yn ganolog i nodau cyffredinol yr adolygiad. Roedd nifer yn galw am roi mwy o arian i mewn i'r cynlluniau ffioedd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd. Rydym ni'n gwneud hynny drwy'r cynigion hyn, yn unol â'n nodau gwreiddiol ar gyfer yr adolygiad a oedd yn cynnwys talu'n deg am waith sy'n cael ei wneud – er enghraifft drwy dalu'n benodol am ddeunyddiau heb eu defnyddio am y tro cyntaf. Drwy'r meysydd carlam, ein bwriad oedd mynd i'r afael â'r pryderon mwyaf ynghylch meysydd lle teimlwyd nad oedd y cynlluniau ffioedd yn talu'n ddigonol i ymarferwyr am eu gwaith. Drwy symud yn gyflym i weithredu'r rhain, gallwn fynd i'r afael â hyn a symud ymlaen i gam nesaf yr adolygiad, lle gellir

3 Mae "ymglyfreithwyr" yn cyfeirio at gyfreithwyr a swyddogion cyfreithiol sy'n gwneud gwaith ymglyfreitha. Mae "adfocadau" yn cyfeirio at gyfreithwyr adfocad a bargyfreithwyr.

4 Agorodd yr ymglyngoriad ar Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu ddydd Mercher 26 Chwefror, ac mae disgwyl iddo gau ddydd Mercher 22 Gorffennaf. Mae'r ddogfen ymglyngori gyflawn ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-on-revisions-to-the-attorney-generals-guidelines-on-disclosure-and-the-cpia-code-of-practice>

ystyried materion cynaliadwyedd a'r cynlluniau ffioedd yn eu cyfanrwydd yng nghydestun y system gyfiawnder troseddol ehangach.

Y camau nesaf

7. Bydd y llywodraeth yn gosod Offeryn Statudol yn y Senedd er mwyn rhoi'r cynigion hyn ar waith cyn gynted â phosibl, ac rydym yn disgwyl i hynny fod ym mis Awst.
8. Fel y nodir uchod, byddwn yn ffurfioli ac yn ymgynghori ar gynig i dalu ymglyfreithwyr am ymgysylltu cyn cyhuddo ar wahân yn dilyn cyhoeddi canllawiau datgelu newydd gan y Twrnai Cyffredinol, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar. Mae Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn ystyried newid y canllawiau i annog mwy o ymgysylltiad cynnar i hwyluso datrys materion yn ymwneud â thystiolaeth yn gynnar. Ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, byddwn yn ymgynghori ar gynigion i dalu ymglyfreithwyr am waith a wnaethpwyd yn ymgysylltu â'r heddlu neu'r erlyniad cyn unrhyw benderfyniad i gyhuddo.
9. Ochr yn ochr â gweithredu'r meysydd carlam ac ymgynghori ar gynigion ynghylch ymgysylltu cyn cyhuddo, byddwn yn troi at gam nesaf yr adolygiad. Rydym wedi ailystyried ein dull o gyflawni'r adolygiad llawn a byddwn yn bwrw ymlaen ag adolygiad annibynnol o'r farchnad o ddarparwyr a gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddu is i sicrhau cysondeb gyda diwygiadau ehangach i gefnogi system gyfiawnder troseddol modern. O ystyried y ffordd mae Covid-19 wedi amlygu pryderon am y farchnad ac ymdrechion caletach ledled y system gyfiawnder i addasu i ffyrdd newydd o weithio, dylai'r dull newydd hwn olygu ein bod yn gallu canolbwyntio ar y materion a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y system ehangach, nawr ac yn y dyfodol, ac yn cyflwyno newid ystyrion yn fwy cyflym.
10. Bydd yr adolygiad annibynnol yn canolbwyntio ar hyrwyddo marchnad cymorth cyfreithiol sy'n gynaliadwy, yn effeithlon ac yn safonol a bydd yn ceisio sicrhau tryloywder mewn perthynas â chanlyniadau ac ansawdd. Bydd yr adolygiad hefyd yn ceisio annog proffesiwn amrywiol gyda symudedd cymdeithasol sy'n sicrhau gwasanaethau o ansawdd sy'n cynnig gwerth am arian ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd cwmpas yr adolygiad yn bellgyrhaeddol ac yn uchelgeisiol. Bydd yn ystyried y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol mewn ffordd holistaidd a bydd yn ymrwymo i ystyried y newidiadau ehangach i'r dirwedd gyfiawnder, cymdeithasol, economaidd, busnes a thechnolegol sy'n effeithio ar y system cymorth cyfreithiol troseddol a'r farchnad cyflenwyr ehangach.
11. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn canolbwyntio ar waith i alinio'r cynlluniau ffioedd presennol o amgylch mentrau diwygio ehangach yn y system gyfiawnder a sicrhau y cefnogir adferiad. Bydd y gwaith hwn yn ymchwilio i newidiadau graddol i ffioedd troseddu is a gofynion cytundebol y gellir eu cyflwyno i gefnogi hwyluso achosion yn

effeithlon ac yn effeithiol, canlyniadau gwell i ddiffynyddion a system gyfiawnder troseddol sy'n fwy modern, yn unol â'n nodau gwreiddiol ar gyfer yr adolygiad.

12. Bydd rhagor o fanylion yn ymwneud â'r ddwy elfen hyn yng ngham nesaf yr adolygiad yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n helaeth ynglŷn â dyfodol y system cymorth cyfreithiol troseddol a byddwn yn parhau i gynnal sgysiau agored gyda'r proffesiwn amddiffyniad troseddol drwy gydol cam nesaf yr adolygiad ac ar ôl hynny.